**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-EM-2157-22

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

29 Mehefin 2022

Annwyl Llywydd

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022")

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn gosod y fframwaith ar gyfer codi ffioedd ar bersonau nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU am driniaeth ysbyty a ddarperir yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio Atodlen 1 o'r Prif Reoliadau i gynnwys brech y mwncïod fel clefyd, y mae gwasanaethau i'w drin wedi'u hesemptio rhag ffioedd y GIG ar gyfer ymwelwyr tramor.

Mae Rheoliadau 2022 hefyd yn darparu pan ddarperir gwasanaethau i ymwelydd tramor ar gyfer trin brech y mwncïod, ar neu ar ôl 23 Mai 2022 ond cyn 1 Gorffennaf 2022 (sef y dyddiad y daw'r diwygiadau i rym), ni chaniateir i Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG godi ffioedd am y gwasanaethau hynny ac os ydynt eisoes wedi codi ffioedd yna ni chaniateir eu hadennill ac os ydynt eisoes wedi'u hadennill yna rhaid eu had-dalu. Y rheswm am hyn yw bod achosion o'r clefyd yng Nghymru eisoes, o ganlyniad i'r brigiad diweddaraf. Drwy ganslo taliadau a allai fod yn gymwys fel arall cyn y dyddiad dod i rym, y bwriad yw sicrhau na fydd ymwelwyr tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd pryderon ynghylch codi ffi. Bydd hefyd yn sicrhau bod y rhai sydd wedi cael triniaeth am frech y mwncïod cyn i'r Rheoliadau ddod i rym yn cael eu trin yn gyfartal â'r rhai sy'n cael triniaeth ar ôl i'r Rheoliadau ddod i rym.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er gwybodaeth, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi cynnwys darpariaeth debyg yn ei rheoliadau codi ffioedd, heblaw bod DHSC wedi dewis estyn yr eithriad rhag ffioedd am driniaeth a ddaparwyd i ymwelwyr tramor ar neu ar ôl 1 Mai 2022, yn hytrach na 23 Mai 2022. Mae hyn oherwydd bod yr achos cyntaf o frech y mwncïod wedi'i nodi yn Lloegr (ar 6 Mai 2022) yn gynharach nag yng Nghymru (ar 25 Mai 2022, ac wedi'i gadarnhau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Mai 2022). Daeth y ddeddfwriaeth ddiwygio y rhoddwyd effaith iddi gan DHSC yn Lloegr i rym lai na 21 diwrnod ar ôl ei gosod, er mwyn lleihau unrhyw risg i iechyd y cyhoedd pe bai ymwelydd tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd y posibilrwydd y byddai ffi yn cael ei chodi arno.

Gwnaed Rheoliadau 2022 a'u gosod cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn galluogi brech y mwncïod i gael ei gynnwys yn y rhestr clefydau yn Atodlen 1 sy'n esempt rhag ffi gan y GIG (pan fo angen triniaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn ehangach).

Os cedwir at y confensiwn 21 diwrnod, mae perygl (fel y mae DHSC wedi'i nodi mewn perthynas a'i deddfwriaeth yn Lloegr) y bydd ymwelwyr tramor yn peidio â cheisio triniaeth oherwydd pryderon am ffioedd, a thrwy hynny yn dod yn risg iechyd y cyhoedd i'r gymuned ehangach.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i Reoliadau 2022 ddod i rym cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a thrwy hynny leihau'r risg i iechyd y cyhoedd yn ehangach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services